


BETH RYDYM YN CEISIO'I WNEUD?


Beth yw WelTAG?

Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu, gwerthuso ac arfarnu projectau trafnidiaeth a gynigir yng Nghymru ydy WelTAG. Mae'n rhaid datblygu unrhyw brosiect sy'n gofyn am arian cyhoeddus trwy'r broses hon. Dyma bum cam WelTAG:



Astudiaeth Cam Un

Datblygwyd Enghraifft o Achos Strategol Amlinellol: Cam Un yn 2017. Datblygodd yr astudiaeth amcanion i fynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth oedd wedi eu nodi ac i ymateb i dargedau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Opsiynau a Argymhellir yng Ngham Un

Bu ymgynghoriad r yr astudiaeth Cam Un ac ystyriwyd rhestr hir o opsiynau i gyflawni'r amcanion. Ym mis Tachwedd 2017, bu i Gyngor Bro Morgannwg gymeradwyo'r argymhellid y dylid trafod y tri opsiwn canlynol mewn astudiaeth Cam Dau:

1. Opsiwn Priffordd 1 – priffordd tua'r dwyrain o Bendeulwyn
2. Opsiwn Priffordd 2 – priffordd tua'r gorllewin o Bendeulwyn
3. Gorsaf parcffordd – ar y brif linell o Gaerdydd i Ben-y-Bont ar Ogwr gyda chyfleuster parcio a theithio ac integreiddio bysus yn agos at Gyffordd 34 yr M4





Ymgynghoriad Cyfnod Un (Tachwedd 2017)

Beth yw diben Cam Dau?

Diben astudiaeth Cam Dau yw trafod yr opsiynau a argymhellwyd yng Ngham Un mewn rhagor o fanylder. Mae hyn yn cynnwys asesiad pum cam o bob opsiwn.

Mae'r asesiad o bob opsiwn hefyd yn cynnwys ei gyfraniad at y nodau lles a nodir yn Neddff Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015).



Gwella Trafnidiaeth Strategol yn Amgylchynu Coridorau ar gyfer Cyffordd 34 yr M4 i'r A48 gan gynnwys Coridor Pendeulwyn

Cam Dau WelTAG: Achos Busnes Amlinellol

